

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 36 Medi 8, 2022 50c.

Llifogydd dychrynlyd ym Mhacistan

Yn ôl llywodraeth Pacistan, mae traean o'r wlad – sy'n cyfateb i ardal yr un maint â gwledydd Prydain – o dan ddŵr, yn yr hyn y mae Ysgrifennydd Cyffredinol y DU, Antonio Guterres wedi'i alw'n 'drychineb hinsawdd'. Mae pentrefi cyfan wedi'u torri i ffwrdd, gyda gwasanaethau brys yn brwydro i'w cyrraedd. Mae o leiaf 1,100 o bobl wedi'u lladd a 1,500 wedi'u hanafu.



Mae asiantaethau cymorth yn ymdrechu i ddiwallu anghenion sylfaenol pobl gyda bwyd, dŵr glân a lloches, ac mae llywodraeth Pacistan wedi galw am gymorth rhyngwladol i ddarparu cymorth dyngarol.

Mae ardaloedd enfawr o dir amaethyddol wedi'u heffeithio, gyda chnydau'n cael eu hysgubo ymaith a thri chwarter miliwn o dda byw wedi marw. Bydd yn golygu bod llawer o bobl yn newynu. Canlyniad arall hefyd yw y bydd clefydau sy'n cael eu cludo gan ddŵr yn lledaenu. Mae adroddiadau eisoes wedi bod o golera yn sgil y llifogydd. Er ei fod yn hawdd ei drin, gall colera ladd mewn ychydig oriau a gall ddatblygu mewn byr o dro i fod yn argyfwng iechyd.

Elusennau DEC


Mae deg elusen DEC eisoes yn ymateb, naill ai'n uniongyrchol neu drwy bartneriaid lleol, ac maent wedi bod ymhlith y rhai sy'n helpu i achub bywydau a darparu cymorth brys. Ond maen nhw angen arian nawr er mwyn cyrraedd mwy o bobl, yn enwedig gan eu bod yn disgwyl i amodau waethygu.

Y blaenoriaethau yw darparu lloches dros dro, cymorth bwyd brys a dŵr glân i'w yfed. Mae elusennau DEC yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol ac asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig i helpu yn y ffyrdd sy'n mynd i'r afael orau ag anghenion y dioddefwyr. Gellir cyfrannu arian trwy'r ddolen hon.

<https://donation.dec.org.uk/pakistan-floods-appeal>

CYFRIFOLDEB PAWB CREFYDDOL

Mae Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn dweud fod angen i bawb sy'n credu mewn Creawdwr gredu yn realiti newid hinsawdd hefyd, a gwneud lleddfu'r difrod sy'n cael ei wneud i'r blaned yn flaenoriaeth.



'Mae digwyddiadau digynsail fel y llifogydd trychinebus ym Mhacistan a thanau direolaeth mewn ardaloedd ble mae sychder ar draws y byd yr haf hwn yn arwyddion bod y ddynoliaeth ar lwybr hunanddinstriol,' meddai'r Parchedig Beti-Wyn James.

'Mae dwy ran o dair o boblogaeth y byd – 5.5 biliwn allan o 8 biliwn o bobl – yn perthyn i grefyddau sy'n addoli duw-greawdwr, felly mae gennym ni gyfrifoldeb arbennig i ofalu am y creu er mwyn sicrhau dyfodol dynoliaeth a phob bywyd arall ar y ddaear.

'Mae cyfrifoldeb arnom hefyd oherwydd mai'r bobl dlotaf yn bennaf sy'n talu'r pris ar hyn o bryd am y newid hinsawdd sy'n cael ei achosi gan y gwledydd cyfoethocaf. Ond mae'r hyn sy'n digwydd ym Mhacistan a mannau eraill yn arwyddion cynnar o ganlyniadau byd-eang yn y pen draw. Ni allwn anwybyddu'r fath rybuddion.'



Y Daith a Phererindota gan Petra Bennett, Caerdydd

Yn ystod cyfnod mwyaf caeth y clo yn 2020, cymaint roeddem yn gwerthfawrogi gallu mynd am dro unwaith bob dydd o fewn pum milltir i'n cartrefi. A hithau'n dymor yr haf, a rheolau caeth y pandemig wedi eu llacio erbyn hyn, mae llawer o bobl yn dechrau mentro teithio ar eu gwyliau unwaith eto. Ond oherwydd problemau niferus yn gysylltiedig â thrafnidiaeth, a streiciau, efallai nad oes awydd crwydro arnoch. Beth am ystyried pererindod neu daith gerdded yng Nghymru neu wledydd Prydain? Ac os nad ydy teithio a cherdded yn ymarferol i chi, beth am ddianc trwy agor drws dychymyg, a darllen am lwybrau taith a phererindodau pobl eraill?

Dyma ambell awgrym.

Caerdydd

Gan ddechrau yn ein milltir sgwâr yng Nghaerdydd, gellir dilyn pererindod heddwach o gwmpas y ddinas, gyda chymorth llyfryn dwyieithog *Heddwach yn y Ddinas* gan Jon Gower. Mae'r brif daith yn cynnwys adeiladau yng nghanol y ddinas sy'n gysylltiedig â heddychwr a heddwach, yn cynnwys y Deml Heddwach, Prifysgol Caerdydd ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays. Cawn ein tywys trwy sawl ardal o'r ddinas yn ogystal.

O Gaerdydd i Ben-rhys

Gan deithio ychydig filltiroedd i'r gogledd at y Gadeirlan yn Llandaf, dyma ddechrau Ffordd Pererindod Pen-rhys. Mae llwybr hynafol pererindod o Landaf i Ben-rhys yn y Rhondda wedi ei ail-greu. Ceir manylion y daith ar wefan www.penrhyspilgrimageway.wales

Tyddewi

Yn ôl y sôn, roedd dwy bererindod i'r gadeirlan yn Nhyddewi yn gyfystyr ag un bererindod i Rufain i ymweld â chreiriau'r apostolion a'r saint.

Taith Mary Jones

Cerddodd Mary Jones yn droednoeth o Lanfihangel-y-pennant i'r Bala, er mwyn



prynu Beibl i'w hun gan Thomas Charles, y Bala. Arweiniodd hyn at sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804, er mwyn sicrhau bod Beiblau ar gael i bawb. Erbyn hyn ceir llwybr penodol i'r daith 28 milltir, a gellir dilyn cymalau'r daith yn y llyfryn dwyieithog *Taith Mary Jones*, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Beibl. Gellir ymweld â Chanolfan Byd Mary Jones, yn Llany Cil ger y Bala.

Ynys Enlli

Un o fannau pererindota mwyaf adnabyddus Cymru yw ynys Enlli. Yn ôl traddodiad, claddwyd ugain mil o saint ar yr ynys hon.

Yn 2011 sefydlwyd Taith Pererin Gogledd Cymru, i adfywio'r traddodiad o ddilyn ôl traed y saint. Mae'r daith yn mynd trwy nifer o leoedd yn gysylltiedig gydag Oes y Seintiau yn y gogledd, ac yn croesi'r Swnt a gorffen ar ynys Enlli. Mae ynys Enlli'n allweddol yn nofel Fflur Dafydd, *Atyniad*, a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 2006. Mae Fflur hefyd wedi addasu'r nofel i'r Saesneg, *Twenty Thousand Saints*. [Gwefan: pilgrims-way-north-wales.org]

Lloegr

Lindisfarne – bob blwyddyn adeg y Pasg mae grŵp o bererinion yn dilyn taith ar draws y foryd o'r tir mawr i ynys Lindisfarne [Holy Island], gan gario croesau, er mwyn efelychu a myfyrio ar daith Crist drwy Jerwsalem. *Caergaint* – ysgrifennodd Geoffrey Chaucer *The Canterbury Tales*, 24 o straeon ar ffurf cerdd estynedig, am griw dychmygol lliwgar iawn aeth ar bererindod o Lundain i ymweld â beddrod Thomas Becket yng nghadeirlan Caergaint yn y canol oesoedd.

Tramor

Un o lwybrau pererindod mwyaf adnabyddus Ewrop yw Llwybr y Saint [Camino de Santiago / Ffordd Sant Ioan] i Santiago de Compostela yn Galicia yng ngogledd Sbaen. Mae'n 500 milltir o hyd, gan ddechrau yn ne Ffrainc, ac yn croesi trwy 4 o ardaloedd Sbaen i gadeirlan Santiago de Compostela. Mae'r llwybr yn denu o leiaf 200,000 o bererinion yn flynyddol. Dim awydd cerdded ond eisiau mwynhau'r golygfeydd? Gwylwch ffilm *The Way* gyda Martin Sheen [2010] yn chwarae rhan tad a gollodd ei fab, a'r hyn ddsygodd y tad am ei hun ac ystyr bywyd

yn ystod y daith.

A dyna hanfod pererindod – cyfle i dyfu a datblygu, cyfle i adael ein bywyd beunyddiol ar ôl am ychydig; treulio amser yn myfyrio ar Dduw a'r cread wrth gerdded, amser i fod gydag eraill a gyda Duw. Mae'r daith ei hun, a'r hyn sy'n digwydd ar y daith, yr un mor bwysig â chyrraedd y terfyn.


Ac ar ein pererindod ddaearol, cofiwn bob amser eiriau'r Iesu:

'Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.'

Ioan 14:6.


Ceir manylion nifer o lwybrau pererindota ym Mhrydain ar y wefan hon: www.britishpilgrimage.org

(*Allan o'r Llusern, Mai 2022, cylchgrawn Ebeneser Caerdydd*)



**Gwasanaeth Sefydlu'r
Parch Gareth Ioan**

yn weinidog i Iesu Crist yn Eglwys Annibynnol
Bryn Iwan, Blaen-y-coed, Nanteris a Moriah, Blaen-waun



Capel Bryn Iwan,
1.30yp, Dydd Sadwrn, 10 Medi 2022

"Yr wyf yn rhoi i chi orchymyn newydd, carwch eich gilydd".
(Ioan 13: 34)

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
CYFUNDEB GORLLEWIN MORGANNWG**


Sul o fawl

**Capel yr Allt-wen
Sul, 25 Medi, 2022 am 10.30 y bore**

O Aberdar i Fethlehem!

Awr yng nghwmni
Delwyn Sion

Cerddor ac Arweinydd
Bethlehem, Gwaelod y
Garth, Caerdydd



Yr Adran Gydenwadol

Cred yn Nuw ar drai yn Ffrainc

Cynhelir arolwg yn Ffrainc bob deng mlynedd i ganfod beth yw agwedd a barn ei thrigolion am grefydd. Un o'r canfyddiadau mwyaf diddorol yn yr arolwg diweddaraf (2021) yw taw llai na hanner y boblogaeth bellach (49%) sydd yn credu yn Nuw. 57% oedd y rhif cyfatebol yn 2011, a chymharer hyn â'r ganran yn 1947 pryd yr oedd 66% o Ffrancwyr yn credu ym modolaeth Duw. Ymhlith y rhai dros 65 mlwydd oed yn unig y ceir mwyafrif.

Wrth gwrs, y mae cymdeithasegwyr a'r rheiny sydd yn ymddiddori mewn crefydd wedi mynd ati i ddadansoddi'r ffigurau ac i geisio esbonio eu harwyddocâd, ynghyd â'r rhesymau am nychdod anesgor Catholigiaeth ddiweddar. Un canfyddiad annisgwyl yw'r ffaith bod ymlyniad i grefydd yn gryfach yn y dinasoedd poblog a'r trefi sirol nag yng ngefn gwlad, lle mae prinder difrifol o offeiriaid i gynnal yr Achos. Y canlyniad yw bod Catholigiaeth egniol i'w chanfod ymysg y boblogaeth gymharol freintiedig a chefnog – fel yn achos Versailles, nid nepell o Baris. Adnabyddir Versailles nid fel dinas frenhinol yn unig, ond, yn ogystal, fel lle sydd â chanran sylweddol o'r *Cathos*, fel y cyfeirir at Gatholigion Ffrainc o dro i dro.

Dadlenna'r arolwg ymhellach fod bywiogrwydd crefyddol i'w ganfod hefyd ymhlith Mwslemiaid a Phrotestaniaid efengylaidd yn y dinasoedd mawrion. Os nad ydyw'r crefyddau hyn yn ffynnu yno, y maent o leiaf yn dal eu tir.

Gwrthgyferbynnir trai crefydd gyda'r cynnydd a welwyd, ac a welir, i grefydd mewn disgwrs gwleidyddol. Canlyniad uniongyrchol y llofruddiaethau brawychus a gychwynnodd yn Toulouse a Montauban yn 2012 yw hyn, llofruddiaethau (y mae'n ddrwg gorfod cydnabod) sydd yn digwydd o hyd yn achlysurol. Er hyn, diflannu'n raddol y mae testun crefydd mewn sgysiau bob dydd, ac yn fwy felly yn y gweithle (18%).

Fe ddichon na ddylai'r ystadegyn olaf beri syndod, o ystyried sensitifrwydd y pwnc mewn gwlad lle ceir poblogaethau sylweddol o Fwslemiaid ac Iddewon. Mae'n ddiddorol sylwi taw 38% yn unig sydd yn trafod crefydd gyda'u teuluoedd, a llai fyth, 29%, sydd yn gwneud hynny gyda chyfeillion. Yn ôl y disgwyl, credinwyr, beth bynnag fo'u ffydd, yw'r mwyaf parod i drafod crefydd, a hynny'n fwyaf arbennig gyda'u teuluoedd: 83% o Gatholigion, 72% o Fwslemiaid a 67% o Brotestaniaid, yn ôl yr arolwg.



Llun: <https://pxhere.com/en/photo/1409188>

Yn sgil rhaib Covid, gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn yr arolwg cyfredol, sef a wnaeth yr haint eu dwyn yn agosach at (unrhyw) grefydd. O'r braidd y gwelwyd tystiolaeth o hyn, serch hynny, gyda 9% yn unig yn cydnabod i ymchwydd ysbrydol eu gafael yn ystod y cyfnod pan oedd y pla ar ei anterth, a hynny er gwaetha'r miloedd o farwolaethau, a'r amser a roddodd y cyfnod clo i fyfyrion ystyrion am ddiben bywyd. Er hyn oll, fe ymddengys bod gan grefyddau'r gallu i 'drosiglwyddo gwerthoedd cadarnhaol i bobl ifanc: parch tuag at eraill, goddefgarwch, haelioni, a chyfrifoldeb' a rhannwyd y gred hon gan bawb a holwyd (68%), heblaw anffyddwyr argyhoeddedig a'r digrefydd.

Rhaid cyfaddef nad yw canlyniadau'r arolwg yn syndod yn y byd oherwydd mae'r sawl sy'n gwybod rhywbeth am Ffrainc yn ymwybodol bod ei threfnadaeth Gatholig a'i chrefyddoldeb yn araf fynd tros gof. Bellach, creiriau o gyfnod pellennig yw rhyfeddodau pensaernïol megis Basilique Saint Denis (un o eglwysi Gothig cyntaf y Cyfandir a gorffwysle brenhinoedd a breninesau Ffrainc) ac eglwysi cadeiriol fel y rhai yn Chartes, Reims ac Amiens.

Yn achos yr Eglwys Gatholig yn benodol, niweidiwydeidelwedd yn ddirfawryllynedd yn dilyn cyhoeddi adroddiad swyddogol cynhwysfawr a ddatgelodd fod cannoedd ar filoedd o bobl wedi eu cam-drin, un ai gan offeiriaid neu wŷr lleyg, dros gyfnod o saith deg mlynedd. Cyfrannodd hyn at y ddrwgdybiaeth, os nad casineb, tuag at yr Eglwys, ymateb sydd yn bodoli ymysg trwch nid ansylweddol o'r boblogaeth. Gellir hefyd ychwanegu'r ffaith bod gan nifer o Gatholigion syniadau a thueddiadau digon adweithiol. Adlewyrchwyd hyn yn yr etholiad arlywyddol eleni pan fu'r ymgeisydd asgell dde eithafol, Eric Zemmour, yn dra llwyddiannus mewn

trefi megis Versailles. Andwyol ddigon yw safbwyntiau o'r fath i fudiad sydd yn amcanu bod yn gynhwysol ac eangfrydig.

Byddai'n ddiddorol cael darlun llawnach ar safbwyntiau ein cyd-Gymry tuag at grefydd a chred y dyddiau hyn, er y tybiaf y ceid cyfochredd rhwng y sefyllfa yng ngwlad Pantycelyn a gwlad Jean Calvin.

Ceri Rhys Davies

(Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Y Gadwyn, cylchgrawn Eglwys y Crwys)

I Gofio Nia Rhosier

(24 Mehefin 1933–19 Mehefin 2022)



Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod:
1985–99

Is-lywydd: 2007–10

Llywydd Anrhydeddus: 2010–22

Ceidwad Canolfan Undod ac Adnewyddiad
Cristnogol,
Hen Gapel John Hughes, Pontrobert:
1995–2021

Rhennaist bob teg wirionedd; – a herio
Yn ddewr bob anwiredd;
Ti oet nef pob tangnefedd;
Oet haul y difachlud hedd.

Robin Gwyndaf

(Llun drwy garedigrwydd Nest Ceris Jones, chwaer Nia)


'Malwan bach fel fi ...'

Penyd ydi'r gyfrol *'Malwan bach fel fi ... yn cloddio am aur, yn ôl Prydwen Elfed-Owens, cyfrol a lansiwyd ganddi ddydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym mhabell Cytûn. Disgrifiodd y gyfrol fel 'penyd' am iddi fod yn or-feirniadol o'r eglwysi mewn cyfweiliad gyda'r cylchgrawn Cristion. Y penyd a osododd iddi ei hun oedd chwilio am aur ym mywyd yr eglwysi yng Nghymru, a bu'n holi trigain o bobl amlwg wrth ymchwilio.*

Prydwen yw'r falwen fach yn y teitl, gyda llaw, ac roedd yn rhaid esbonio hynny cyn dechrau. Rydw i wedi cyfarfod ambell un oedd wedi camddeall geiriau'r garol a dweud fod 'lorwerth mewn preseb', ond Prydwen yw'r unig un y gwn i amdani oedd wedi deall 'mawl un bach fel fi' yn 'Deuaf atat, Iesu' fel 'malwen bach fel fi'. Ond o leia roedd o'n gymorth i gyffesu mai araf i ddysgu ydym ni i gyd, ac mai bwriad y falwen oedd dysgu mwy am yr hyn sydd yn digwydd yn enw Crist yng Nghymru heddiw.

Mae'r gyfrol, dros bedwar can tudalen, wedi ei rhannu yn bum rhan. Mae'r ddwy ran gyntaf yn cael mwy na hanner y gofod, sef rhan ar fugeilio ymarferol a rhan ar 'danio'r fflam - cenhadu i ddenu'r ifanc a'r gymuned leol'. Yna, rhan fer iawn ar genhadu cyfoes a dwy ran fwy sylweddol ar arweiniad goleuedig a rheoli grymusol. Mae pobl o bob math o draddodiad Cristnogol wedi eu holi ac fe geir cyfraniadau amrywiol iawn yn y gyfrol.

Fe wnaeth Prydwen wahodd pedwar o'r cyfranwyr i'r cyfarfod ym mhabell Cytûn, sef Beti Wyn James, Aled Davies, Rhys Llwyd ac Alwyn Humphreys, a finnau yn



rhyw lun o gadeirio'r cyfan. Un o'r themâu amlwg oedd yn codi o'r gyfrol oedd y syniad o gymuned, nid yn unig natur cymuned ffydd ond sut y mae eglwys i fod yn rhan o gymuned a chymdogaeth. Roedd profiad y tri gweinidog yn ystod y pandemig wedi herio a newid eu hagwedd at gymuned. Gyda rhai'n addoli drwy gyfryngau digidol, eraill yn rhan o gynulleidfa yn yr adeilad, eraill yn byw ymhell, mae dirnad a datblygu cymuned yn her wahanol. Er, ar y cyfan, rhaid dweud fod y syniad o gyfarfod wyneb yn wyneb yn dal yn fwy atyniadol na dim i'r cyfranwyr.

Nodwedd arall sydd yn codi ei phen yn lled aml yn y gyfrol yw natur arweinyddiaeth mewn eglwys. Roedd Prydwen yn bendant iawn fod angen agwedd mwy tebyg i fyd addysg o ran hyfforddi ac atebolrwydd arweinwyr eglwysig. Ond yn y gyfrol roedd ambell esiampl glir o arweinyddiaeth yn cael ei rhannu yn llwyddiannus iawn. Mae'r

Tabernacl, Efail Isaf; Eglwys Unedig Seion, Glyn Ceiriog a Caersalem, Caernarfon, yn eglwysi sydd yn eu ffordd eu hunain yn gweld arwain eglwys yn waith tîm yn hytrach nag unigolyn. Dyma holi Rhys Llwyd am y fantais o weithio felly. Pwysleisiodd yntau fod yr eglwys wedyn yn manteisio llawer iawn ar ddoniau gwahanol pobl yn hytrach na disgwyl i'r gweinidog allu troi ei law at bopeth dan haul.

Cafwyd peth trafod hefyd ar y peryglon o ddisgwyl gormod gan y gweinidog a thrwy hynny y perygl i eglwys droi yn gwlth personoliaeth. Mae digonedd o enghreifftiau lle mae llwyddiant eglwys wedi troi o gwmpas personoliaeth liwgar, ddeniadol; yna, pan fo'r person yn gadael, mae'r eglwys yn gwywo.

Pwnc arall a ddenodd sylw oedd lle cerddoriaeth mewn addoliad. Roedd Alwyn Humphreys ac eraill o'r panel yn gweld gwerth arbennig iawn mewn cerddoriaeth i fynegi mawl ac addoliad. Ond fe welai gerddoriaeth hefyd fel cyfrwng i gynorthwyo myfyrdod a defosiwn personol, boed hynny'n emynau neu gerddoriaeth seciwlar. Mae'n gyfrwng sydd yn cynorthwyo rhywun i ddianc rhag cyfyngder geiriau, ac yr oedd cytundeb rhwng pawb na fyddai geiriau fyth yn gallu cwmpasu holl fawredd a rhyfeddod Duw yng Nghrist, er bod yn rhaid cofio mai peth o waith yr eglwys yw ceisio cyfathrebu neges o gariad Duw drwy air a gweithred.

Gobeithio i'r gynulleidfa ddarganfod mymryn o aur yng nghyfraniadau'r gwsteion ym mhabell Cytûn ar y dydd Mawrth hwnnw yn Nhregaron. £10 yw pris y gyfrol ac fe'i cyhoeddwyd gan Prydwen Elfed-Owens ei hun.

John Roberts

Llifogydd Pacistan – Apêl DEC



Mae'r golygfeydd o Bacistan yn dorcalonnus. Mae'r llifogydd difrifol, sy'n waeth oherwydd yr argyfwng hinsawdd, wedi lladd mwy na 1,000 o bobl ac anafu 1,600, ac wedi difrodi dros filiwn o gartrefi.

Bydd Cymorth Cristnogol yn chwarae ei ran drwy gefnogi Apêl Llifogydd Pacistan DEC. Mae hefyd wedi cyfrannu £50,000 at Apêl yr ACT Alliance er mwyn helpu eu partneriaid.

Fodd bynnag, nid yw Cymorth Cristnogol yn bresennol yn y wlad ac felly ddim yn ymateb yn uniongyrchol. Credwn fod elusennau DEC sydd yn bresennol yn y wlad yn fwy addas i ymateb er mwyn cefnogi'r cymunedau yno. Rydym yn eich annog felly i gefnogi Apêl Llifogydd Pacistan DEC.

Am fwy o wybodaeth, ewch i <https://www.christianaid.org.uk/our-work/news-and-blogs/support-dec-pakistan-floods-appeal>

Gweddï dros Bacistan

Dduw tosturiol

Clyw ein gweddï dros bobl Pacistan; dros y rhai gollodd anwyliad yn y llifogydd a thros y rhai orfodwyd o'u cartrefi.

Mae ein calon yn drwm wrth weld y dioddefaint a'r difrod.

Dduw cariad a chyfiawnder:

galw ni i roi hael

ac i weithred brys dros yr hinsawdd.

Una ni mewn gobaith

dros fyd ble gall pawb fyw mewn

diogelwch.

Amen.

O'r Beibl: 14

Y Gwynfydau (7)

"Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw."
(Mathew 5:8)

Heddiw, rydym yn cyrraedd y chweched gwynfyd: 'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.' Yma, mae Iesu'n datgan fod y rhai 'pur eu calon' o dan fendith Duw oherwydd nhw yw'r rhai fydd yn cael 'gweld Duw'.

Ond beth mae'n ei olygu i bobl fod yn 'bur eu calon'? Wel, yn yr iaith Roeg – iaith wreiddiol y Testament Newydd – mae'r gair sy'n cael ei gyfieithu fel 'pur' hefyd yn gallu golygu 'digymysg'. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw ystyr bod yn 'bur'. Rhywbeth 'pur' yw rhywbeth nad ydyw wedi cael ei gymysgu â rhywbeth arall. Pan soniwn am 'aur pur', rydym yn golygu aur nad yw wedi cael ei gymysgu ag unrhyw fetelau eraill. Pan soniwn am 'ddŵr pur', rydym yn golygu dŵr croyw nad yw wedi cael ei gymysgu ag unrhyw hylif arall. Wel, pan mae Iesu'n sôn am galon 'bur' yn yr adnod hon, mae'n golygu rhywbeth tebyg. Calon 'bur' yw calon ddigymysg: calon sy'n ddiwyll a diffuant, heb unrhyw ddichell i'w chael ynddi, calon sy'n unplyg a diwyro ei chariad tuag at Dduw, heb elfen o dwyll ynddi. Fel yn achos aur pur a dŵr pur, calon bur yw calon ddiwyll heb ddim byd ffals wedi'i gymysgu â'r didwyll hwnnw. Yn ei gyfrol wefreiddiol *The Message of the Sermon on the Mount* (1978), mae John Stott yn disgrifio'r rhai 'pur eu calon' trwy ddweud hyn: 'Their very heart – including their thought and motives – is pure, unmixed with anything devious, ulterior or bases. Hypocrisy and deceit are abhorrent to them they are without guile.'

Wrth i Iesu ddweud y gwynfyd hwn yn adnod 8, mae'n cyfeirio'n ôl at salm benodol yn yr Hen Destament: Salm 24. Yn y salm hon mae'r brenin Dafydd yn gofyn y cwestiwn: 'Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd a phwy a saif yn ei le sanctaidd?' Hynny yw, mae Dafydd yn gofyn, pwy sy'n cael gweld Duw? Yna, mae'n rhoi'r ateb i ni yn adnod 4: 'Y glân ei ddwylo a'r pur o galon, yr un sydd heb osod ei feddwl ar dwyll a heb dyngu'n



gelwyddog'. Sylwch sut mae Dafydd yn defnyddio'r ymadrodd 'pur o galon' yma. Yn ôl Dafydd, y rhai pur o galon yw'r rhai sydd heb osod eu meddyliau ar 'dwyll'. Y bobl sydd â chalon ddiwyll a digymysg. Mae'n arwyddocaol iawn fod Iesu'n sôn am bobl 'pur eu calon' yma. Yn y ganrif gyntaf, roedd y Phariseaid yn gosod pwyslais mawr ar fod yn 'bur'. Ond yr hyn oedd bwysicaf iddynt oedd purdeb allanol: ymddangos yn grefyddol a phur ar y tu allan drwy ddilyn rheolau defodol yr Hen Destament. Ond, i'r Arglwydd Iesu, nid ymddangos yn 'bur' ar y tu allan oedd yn bwysig, ond bod yn 'bur' y tu fewn – yn ein calonnau. Yn wir, yn Mathew 23:25–8, mae Iesu'n condemnio rhagrith y Phariseaid drwy ddweud: 'Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn glanhau'r tu allan i'r cwpan a'r ddysgl, ond y tu mewn y maent yn llawn trachwant a hunanfodhad.' Er bod y Phariseaid yn edrych yn grefyddol ar y tu allan, roedd eu calonnau nhw'n frwnt.

Wrth i Iesu'n sôn am 'y rhai pur eu calon' yn y gwynfyd hwn, sylweddolwn yn syth pa mor amhur yw ein calonnau. Nid yw ein calonnau ni'n ddigymysg ac yn bur ohonyn nhw eu hunain. Yn wir, mae dyheadau a bwriadau ein calonnau yn aml yn gymysg. Nid yw ein calonnau yn gwbl ddiwyll a

diffuant gan ein bod ni'n aml yn ffals ac yn dwyllodrus. Yn wir, weithiau ceisiwn guddio ein calonnau rhag eraill gan ein bod ni'n gwybod ein bod ni'n rhagrithiol.

Ond, yn dra gwahanol i ni, mae yna un person sydd wirioneddol yn 'bur ei galon'. Y person hwn, wrth gwrs, yw Iesu. Mae ei galon ef yn gwbl bur, didwyll a diffuant. Nid oes twyll na rhagrith yn ei galon; mae ei galon yn gwbl ddigymysg. Roedd yn gwbl ddiwyro yn ei gariad tuag at ei Dad a'i gariad tuag atom ni nes iddo ildio'i fywyd a marw ar y groes dros ein pechodau. Os ydym eisieu gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon' heddiw, y cyfan sy'n rhaid inni ei wneud yw edrych ar Iesu.

Ond drwy roi ein ffydd yn Iesu a'r hyn mae wedi'i wneud trosom ar y groes, mae'n cynnig maddeuant i ni am fod mor rhagrithiol a chymysg ein calon, ac mae'n rhoi 'calon bur' newydd yn rhodd i ni. Am beth rhyfeddol!

Yna, ar ôl derbyn y galon hon yn rhodd ganddo, mae'n ein galw ni i fod yn 'bur ein calon' yn ein bywydau bob dydd. Mae'n ein galw i fod yn ddiwyll ein cariad tuag ato heb elfen o dwyll na rhagrith yn ein calonnau. Ond mae hyn yn beth anodd. Mae cadw ein calonnau yn bur a didwyll yn her. Wedi'r cyfan, mae'r byd o'n cwmpas yn ceisio hoelio ein sylw ar filoedd o bethau heblaw am Iesu.

Beth felly fydd yn ein hannog ni i ddyfalbarhau i gadw ein calonnau'n bur? Wel, yr hyn fydd yn ein hannog yw'r hyn mae Iesu yn ei ddweud nesaf: 'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw'. Dyma anogaeth arbennig i fod yn bur ein calon. Bydd y rhai pur eu calon yn cael 'gweld Duw'. Trwy dyfu yn ein purdeb, byddwn ni'n 'gweld' Duw drwy ddod i'w adnabod yn y bywyd hwn. Ond, yna, pan ddaw Iesu Grist yn ôl, byddwn ni'n cael ei weld wyneb yn wyneb.

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon'?
- Sut mae Iesu'n esiampl berffaith o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon'?
- Sut mae cael calon bur?
- Pa anogaeth mae Iesu yn ei rhoi i ni i fod yn 'bur ein calon'?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 11 Medi, am 7.30yh

Bydd Nia yn treulio amser gydag Arfon Wyn, sy'n rhannu ei weledigaeth yn ei ganeuon ac yn rhoi ei egwyddorion ar waith yn ei fywyd bob dydd

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 11 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

Sul, 11 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Ann Lewis, Capel Helyg, Eifionydd

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddwr Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Cyfarfod Blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul, a hynny eto dros Zoom, er hwylustod i'r aelodau ac mewn ymgais i leihau'r teithio a'r ôl troed



carbon o bob cornel o Gymru. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Parchg Jennie Hurd, a chafwyd adroddiadau gan Aled Davies, y Cyfarwyddwr, ac Idris Hughes, y Trysorydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y cyfarwyddwr:

Bu 2021 yn flwyddyn arall lle'r oedd Covid yn dal yn amlwg yn ein cymunedau. O'r herwydd, ni chynhaliwyd y digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr un modd, ni lwyddwyd cael stondinau yn y cynadleddau enwadol na chwaith i gynnal nosweithiau hyfforddiant ac adnoddau. Bellach, mae llawer o ysgolion Sul lleol heb gyfarfod ers dwy flynedd, a nifer o athrawon yn dweud wrthym nad ydynt yn teimlo y gallant ailgychwyn am amryw resymau. Mae hon felly yn her wirioneddol i eglwysi ac arweinwyr ar gyfer y blynyddoedd nesaf, wrth feddwl am ffyrdd i gyrraedd plant a theuluoedd. Bydd y realiti hwn, rwy'n siŵr, yn ffocws arbennig i'n gwaith ni ar gyfer 2022 a thu hwnt, wrth feddwl am ffyrdd o ailgysylltu ac ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Ond er ein pryder am y sefyllfa, mae'n braf adrodd hefyd i lawer o brojectau gael eu gwreiddu, gyda nifer o ddeunyddiau print a lluo o adnoddau digidol yn ymddangos. Yn ystod y flwyddyn aeth heibio parhawyd i gynnal llawer o weithgarwch ar-lein, a diolch am yr adnoddau digidol a baratowyd gan nifer o fudiadau i'w rhannu am ddim ar y we. Heb os, un o fendithion mawr y ddwy flynedd diwethaf yw bod ein pum gwefan wedi eu cryfhau'n sylweddol, a'n presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu a'i ddatblygu. Cafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd dros Zoom, weithiau ar lefel cwrdd chwarter, weithiau ar lefel gofalaethol, ac weithiau rhwng arweinyddion neu athrawon ysgol Sul yn lleol.

Erbyn hyn mae toreth o adnoddau ar gael am ddim ar y we, a'r un pryd mae nifer o gyfresi o werslyfrau mewn print, yn llyfrau athro a llyfrau lliw i blant. Heb os,

nid oes prinder adnoddau, a her y dyfodol fydd marchnata ac annog pobl i'w defnyddio. Mae gwers yr ysgol Sul i oedolion hefyd ar-lein erbyn hyn. Bob wythnos cyhoeddwyd gwers a ffilwm bwrpasol yn cael ei chyflwyno gan Denzil John, sydd i'w gweld ar sianel deledu TCC ar y we. Prin yw'r dosbarthiadau sy'n cyfarfod, ac o'r herwydd ataliwyd cyhoeddi gwers wythnosol newydd tan fis Medi 2022.

Rhyddhawyd llawer o adnoddau newydd ar ein tudalennau Facebook a gosod adnoddau newydd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys myfyrdodau tymhorol, gweddiâu, llyfrau gweithgaredd a lliwio i blant, a chyfres o wersi ysgol Sul ar gyfer y cartref. Cynhyrwyd adnodd ar y Grawys i blant yn seiliedig ar *Beibl Bach Stori Duw*, llyfr myfyrdodau a lliwio ar y Grawys a Gorsafoedd y Groes, ac e-lyfr lliwio o stori'r Pasg. Ar gyfer y Nadolig paratowyd tair cyfres o weddiâu, myfyrdodau a gweddiâu ar gyfer oedolion, a rhai i deuluoedd eu rhannu gyda'i gilydd.

Llwyddwyd hefyd i gyhoeddi deg cyfrol brint yn ystod 2021, gan gynnwys pedwar *Beibl* lliw gwahanol i blant, a dwy gyfrol sylweddol o fyfyrdodau a gweddiâu o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts.

Mae'r teitlau isod i gyd ar gael mewn siopau lleol:

Y Comic Beiblaidd Anferth – *Beibl* lliwgar i blant 7–11 oed, wedi ei ddylunio yn arddull y comic Beano.

Stori Fwya'r Byd – addasiad o gyfrol i blant 8–13 oed o *Feibl* yn arddull unigryw'r awdur Tom Gates.

Beibl Storiwr y Teulu – cyfrol newydd sy'n rhyw fath o Agor y Llyfr yn y cartref!

Fy Meibl Lliw – cyfrol addas ar gyfer plant 3–5 oed; *Beibl* o ffabrig cotwm.

Y Llais – sef fersiwn gwreiddiol Cymraeg o gyfrol yn arddull y *Tabloid Bible*.

Cymer fy Munudau: Gweddiâu Elfed – cyfrol o'r holl weddiâu gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts.

Gwerth y Funud Dawel: myfyrdodau Elfed – casgliad cwbl wreiddiol o fyfyrdodau gan Elfed ap Nefydd Roberts.

Derbyn a Dilyn Iesu – deunydd gwreiddiol ar gyfer y dosbarth derbyn, wedi ei baratoi gan Elfed ap Nefydd Roberts.

Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona gan Gareth Lloyd Jones.

Cofio Euros gan John Pritchard (gol.) – cyfrol werthfawr i gofio cyfraniad

sylweddol un o gymeriadau anwyllaf bywyd crefyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes, sef Euros Wyn Jones.

Meddyg y Galon Glwyfus: gofal am iechyd meddwl a chymwynas fawr Dr David Enoch gan Robin Gwyndaf.

Mae nifer o gyhoeddiadau newydd ar gyfer 2022 ar y gweill gennym hefyd, gan gynnwys:

Hoff Emynu'r Cymry – cyfrol gan Rob Nicholls lle mae nifer o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff emynau.

Dehongli Bywyd a Gwaith Moses – esboniad gan Gareth Lloyd Jones.

Goreuon 'O Ddydd i Ddydd' – 365 myfyrdod o'r gyfres 'O Ddydd i Ddydd'.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd – deunydd ar gyfer yr Adfent.

60 Mlynedd o Weinidogaethu – cyfrol hunangofiannol gan D. Ben Rees.

Geiriadur y Gair – D. Geraint Lewis a'i eiriadur Beiblaidd.

Llyfr crefftau bwyd Beiblaidd – gwerslyfr yn cynnwys 60 o ryseitiau coginio.

Llyfr gemau Beiblaidd – gwerslyfr yn cynnwys dros 200 o gemau Beiblaidd.

Llyfr arbrofion gwyddoniaeth Feiblaidd i blant – gwerslyfr yn cynnwys dros 60 o arbrofion gwyddonol.

Myfyrdodau Grawys Coeden Iesu – casgliad o 40 ffilwm fer, a 40 myfyrdod a gweddi ar gyfer y Grawys.

Medalau Gee

Gan na fu'n bosib cynnal dau gyfarfod torfol eleni, penderfynwyd cynnal nifer o gyfarfodydd lleol i gyflwyno medalau. Cyflwynwyd 21 medal Gee, a thair medal arbennig er anrhydedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyflwyno yn Amlwch, Wrecsam, Llanddarog, Llanybydder, Rhydaman, Caerfyrddin a Dre-fach. Cymeradwyodd y Cyngor ddyfarnu tair medal Gee er anrhydedd yn 2019 i dri a wnaeth gyfraniad nodedig i weinidogaeth plant yng Nghymru, sef y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies. Wedi dwy flynedd o oedi, bu'n braf cael cyflwyno'r medalau iddynt hwythau hefyd yn ystod Hydref 2021.

Mawr obeithiwn y bydd modd dechrau trefnu ymweliadau a gweithgareddau eto yn fuan ac y cawn gyfle i gyfarfod ein cefnogwyr wyneb yn wyneb wrth adeiladu model hybrid o fod yn eglwys a chymuned Gristnogol.

Gan ddiolch am bob cefnogaeth.

Aled Davies, Cyfarwyddwr
(Allan o Cennad, Awst 17 2022)

HER I'R GWEDDILL FFYDDLON I RODIO'N Y GWIRIONEDD Pregeth yr Oedfa o Fawl yn Undeb 150

Yn absenoldeb y Parchg Iwan Llewelyn Jones oherwydd Covid, fe gamodd y Parchg Andrew Lenny i'r bwch i bregeth yr oedfa o Fawl yng nghapel Heol Awst. Safodd yn yr union bulpud lle safai Gwilym Hiraethog i draddodi ei anerchiad fel Llywydd cyntaf Undeb yr Annibynwyr yng Nghyfarfodydd Blyneddol cyntaf yr Undeb yn 1872.

Er nad yw'r tyrfaoedd yno bellach, mae Duw, yn ei ras, yn galw'r gweddill ffyddlon i dystio iddo yn y Gymru hon, meddai'r Parchg Andrew Lenny yn ei bregeth, wrth ddeuis y geiriau o lythyr Ioan 'fy ffrind annwyl Gaius' - yr hwn oedd yn ffyddlon i'r gwirionedd.

Dim ond yr Arglwydd Iesu sydd wedi ymgorffori'r gwirionedd am Dduw, meddai. Iesu yw'r Efengyl, a'n braint ni yw rhannu'r Efengyl, rhannu'r gwirionedd. Mae'n golygu dilyn ôl traed yr Arglwydd Iesu, yn ei efelychu fe, dod yn tyfu'n debyg iddo fe. Roedd Gaius yn rhodio yn y gwirionedd, nid yn cydsynio gyda'r gwirionedd yn unig, ond yn ei gymhwyso i'w fywyd o ddydd i ddydd. Achos llawenydd mawr yw gweld pobol nad oes bwch rhwng eu proffes a'u hymddygiad. Mae bywyd Crist-debyg yn arf grymus sy'n herio anffyddiaeth yr oes bresennol, yn ogystal â thwyll a chelwydd oddi mewn i'n cymdeithas.

Ni allwn fod yn dda heb i'r Arglwydd Iesu deyrnasu yn ein calonau; mae ishe ei bresenoldeb, mae ishe ei nerth e arnom ni, mae ishe ei gyfarwyddyd e arnom ni. Mae'r Cristion sy'n rhodio'n yr Efengyl yn dyheu am ddod i adnabod Iesu yn well. Gweddïwn am nerth a gras i rodio'n y gwirionedd ac i fod yn gydweithwyr dros y gwirionedd. Boed i'r Ysbryd Glân ein tywys ni a'n harwain ni.

3 Ioan 1:

¹ Llythyr gan Ioan yr arweinydd, at fy ffrind annwyl Gaius, yr un dw i'n ei garu go iawn.

² Ffrind annwyl, dw i'n gweddïo fod pethau'n mynd yn dda gyda ti, a'th fod yr un mor iach yn gorfforol ac rwy'ti'n ysbrydol. ³ Dw i wrth fy modd pan mae brodyr neu chwirydd yn dod yma a dweud wrtho i mor ffyddlon rwy'ti i'r gwirionedd. ⁴ Does dim byd yn fy ngwneud i'n fwy llawen na chael clywed fod fy mhlant yn byw'n ffyddlon i'r gwir.

—Rhan o'r bennod a ddarlennwyd gan y Parchg Aled Davies cyn y bregeth.



Dilyn Llinyn Mynwent Abney Park Betsi Cadwaladr

Wrth adael mynwent Abney Park, gofynnais i'r rheolwr os oedd pobl eraill, ar wahân i Henry Richards, wedi eu claddu yno oedd gyda chysylltiadau Cymreig. Dywedodd wrthyf fod Betsi Cadwaladr wedi ei chladdu yno. Ni allwn ar unrhyw gyfrif adael heb dalu gwrogaeth i'r wraig arbennig honno. Felly yn ôl a fi i chwilio am ei beddrod. Wrth gerdded llwybrau'r fynwent am yr eildro, wedi gweld cof golofn Henry Richards, sylweddolais fod mieri wedi'u clirio oddi ar nifer o feddau eraill, gan gynnwys bedd William a Catherine Booth, sylfaenwyr Byddin yr Iachawdwriaeth. Wrth chwilio am fedd Betsi Cadwaladr, cerddais heibio i glamp o gerflun o'r emynydd Isaac Watts. Gofynnais i mi fy hun, pam fod hwnnw yno? Oherwydd gwyddwn yn iawn fod ei weddillion ef wedi eu claddu ym mynwent Bunhill Fields. Mae'r hanes pam fod y cerflun yno yn un diddorol ac fe gaf gyfle i rannu gyda chi am hynny yn yr erthygl nesaf.

O'r diwedd deuthum ar draws fedd a chofeb i'r nyrs enwog Betsi Cadwaladr y wraig sydd a'i henw ar Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru. Ond pam fod ei bedd

parhad ar y dudalen gefn



DATHLIAD

Y Parchg Gwylfa Evans

60 mlynedd ers ei ordeinio
yn weinidog 1962–2022

Eglwys Annibynnol
Gymraeg Harrow

Prynhawn Sul
Medi 11 am 3.00pm

Croeso cynnes i bawb

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ

Ffôn: 01792 795888

E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Dilyn Llinyn - parhad




mewn rhyw gilfach o ogledd-ddwyrain Llundain? Dyma beth o hanes y wraig hynod hon.

Elisabeth Cadwaladr, 'Balaclava'

Yr oedd Betsi Cadwaladr yn dipyn o aderyn brith a wrthododd gydymffurfio â'r hyn a ddisgwylid ganddi. Daw'r cwbl a wyddom am ei gyrfa o'r *Autobiography of Elizabeth Davis* (dwy gyfrol, 1857), sef nodiadau o sgysiau rhyngddi hi a Jane Williams, Ysgafell. (Gwraig hynod arall a anwyd yn Chelsea ond a ddysgodd Gymraeg pan oedd yn byw am gyfnod yn ardal Talgarth. Cyhoeddodd lyfr ar hanes Cymru ym 1869, sef *A History of Wales*.)

Y Bala

Merch i Dafydd Cadwaladr oedd Betsi, ac yn un o naw o blant. Yr oedd ei thad yn gyfaill mawr i Thomas Charles o'r Bala, yn bregethwr gyda'r Methodistiaid ac yn dipyn o gymeriad. Ganwyd hi ar 24 Mai 1789 ac fe'i bedyddiwyd yn Llanycil ar 26 Mai. Bu farw ei mam tua 1795 ac fe'i magwyd gan ei chwaer hŷn. Derbyniwyd hi am gyfnod ar aelwyd Simon Lloyd, Plas-yn-dre, y Bala, lle y profodd garedigrwydd mawr. Yr oedd Simon Lloyd yn ŵr cefnog; ef oedd perchennog tyddyn ei thad a bu'n gurad eglwys Llanycil am gyfnod. Ond pan oedd Elisabeth Cadwaladr yn bedair ar ddeg daeth tro ar fyd pan ffodd i Lerpwl. Yno



bu'n gweini gyda theulu da eu byd a chafodd gyfleoedd i deithio i amryw o wledydd y cyfandir, ond glynodd wrth yr achos Methodistiaid yn y dref. Dychwelodd i'r Bala, ond er mwyn osgoi priodi, ffodd eto, y tro hwn i Gaer ac yna i Lundain. Arhosodd i ddechrau dan gronglwyd John Jones, 'Jac Glan-y-gors', awdur *Seren Tan Gwmwl*, a cheidwad tafarn y Canterbury Arms, Southwark, cyn cael gwaith yn forwyn yng nghartref teiliwr ffasiynol. Yn y fan honno gallai gyfuno'i diddordeb yn y theatr â'i ffyddlondeb i'r capel. Ym 1820 aeth yn forwyn gyda theulu capten llong a chrwydrodd y byd am flynyddoedd gan gyfarfod pobl fel William Carey ac actio dramâu Shakespeare ar fwrdd y llong. Pan ddychwelodd i Loegr bu'n gwasanaethu gyda theulu ac yna fe'i cyflogwyd fel gweinyddes yn Guy's Hospital.

Nyrsio

Arweiniodd hynny hi i gynnig mynd i weithio gyda'r milwyr clwyfedig yn rhyfel y Crimea ym 1854, ac felly y gwnaeth. Y mae'r Crimea yn ardal sydd yn ne-ddwyrain Wcráin bellach, ond rhwng 1853 a 1856 yr oedd rhyfel gwaedlyd yno. Bu gwrthdaro ffyrnig rhwng Rwsia a chlymblaid a gynhwysai Brydain, Ffrainc, Brenhiniaeth Sardinia a'r Ymerodraeth Otomanaidd, a bu'n drobwynt pwysig yn hanes gwleidyddol Ewrop. Yn filariaidd yr oedd yn anhrefn llwyr gyda bywydau dynion yn cael eu haberthu'n ynfyd gan arweinyddion cibddall, fel yn hanes y Charge of the Light Brigade ym mrwydr Balaclava. Hefyd yr oedd y gofal a roddid i'r sâl a'r clwyfedig yn waradwyddus. Bu farw mwy o ddynion o salwch nag a wnaeth ar faes y gad. Yma y daeth Florence Nightingale (1820–1910) i enwogrwydd wrth iddi fynnu safonau glendid uwch a threfn gofal gwell ar gyfer

y cleifion. Ac yma yng nghanol y dioddefaint y gweithiodd Betsi Cadwaladr, yn gofalu am yr anghenus. Dywedir bod pethau wedi mynd yn ddrwg rhyngddi hi a Florence Nightingale ond ni wyddys y rheswm pam.

'Nôl gartref

Anfonwyd hi adref yn wael a threuliodd ei blynyddoedd olaf yn byw mewn tloedi gyda'i chwaer Bridget a fu'n gweini gyda'r Arglwyddes Llanofar, yn Llundain. Glynodd wrth Gristnogaeth drwy gydol ei hoes, a chydymaith cyson iddi ar ei theithiau oedd y Beibl bychan a roddwyd iddi gan Thomas Charles pan oedd yn eneth ifanc. Bu farw yn Llundain ar 17 Gorffennaf 1860. Fe'i claddwyd ym Mynwent Abney Park yn yr adran a neilltuwyd ar gyfer y tlodion. Gosodwyd carreg fedd newydd ar ei bedd ym mis Awst 2012.

Os byddwch byth ar ymweliad â Llundain y mae'n werth i chi fynd ar ymweliad â mynwent hanesyddol Abney Park. Y tro nesaf wrth Ddilyn Llinyn fe ystyriwn pam fod cerflun Isaac Watts ym mynwent Abney Park.

